

2020 Rhif (Cy.)

2020 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A483
(Heol Llandybie a Stryd y Coleg,
Rhydaman, Sir Gaerfyrddin)
(Gwahardd Aros)
2020

The A483 Trunk Road (Llandybie
Road and College Street,
Ammanford, Carmarthenshire)
(Prohibition of Waiting) Order
2020

Gwnaed 1 Medi 2020
Yn dod i rym 3 Medi 2020

Made 1 September 2020
Coming into force 3 September 2020

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A483, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 1(1), 2(1), 2(2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, ar ôl rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud hynny ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A483 Trunk Road, in exercise of the powers conferred upon them by sections 1(1), 2(1), 2(2), and 124 of, and paragraph 27 of Schedule 9 to, the Road Traffic Regulation Act 1984(1), after giving public notice of their intention to do so and after consultation with the Chief Officer of the Dyfed Powys Police, make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Heol Llandybie a Stryd y Coleg, Rhydaman, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Aros) 2020 a daw i rym ar 3 Medi 2020.

1. The title of this Order is the A483 Trunk Road (Llandybie Road and College Street, Ammanford, Carmarthenshire) (Prohibition of Waiting) Order 2020 and it comes into force on 3 September 2020.

2. Yn y Gorchymyn hwn—

2. In this Order—

mae i “bathodyn person anabl” (“*disabled person's badge*”) yr ystyr a roddir iddo yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000(2);

“disabled person's badge” (“*bathodyn person anabl*”) has the meaning given in regulation 2(1) of The Disabled Persons (Badges for Motor Vehicles) (Wales) Regulations 2000(2);

(1) 1984 p. 27; diwygiwyd adrannau 1(1), 2(1) a (2) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22) a pharagraffau 17 a 18 o Atodlen 8 iddi, a diwygiwyd adran 1(1) gan baragraff 36(1) o Atodlen 22 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p. 25). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(2) O.S. 2000/1786 (Cy. 123), a ddiwygiwyd gan O.S. 2014/3082. Mae offerynnau diwygio eraill, ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

(1) 1984 c.27; sections 1(1), 2(1) and (2) were amended by the New Roads and Street Works Act 1991 (c.22), section 168 and Schedule 8, paragraphs 17 and 18, section 1(1) was amended by paragraph 36(1) of Schedule 22 to the Environment Act 1995 (c.25). By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(2) S.I. 2000/1786 (W.123), amended by S.I. 2014/3082. There are other amending instruments but none is relevant.

mae i “disg parcio” (“*parking disc*”) yr ystyr a roddir iddo yn rheoliad 8(5) o Reoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Esemptiadau ar gyfer Personau Anabl) (Cymru) 2000(3);

ystyr “cefnffordd yr A483” (“*the A483 trunk road*”) yw Cefnffordd yr A483 Abertawe i Fanceinion;

mae i “y safle perthnasol” (“*the relevant position*”) yr ystyr a roddir gan reoliad 4 o Reoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Esemptiadau ar gyfer Personau Anabl) (Cymru) 2000.

Gwahardd aros ar unrhyw adeg

3. Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 4, ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar ochrau'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn ar unrhyw adeg.

Esemptiadau

4.—(1) Caiff person beri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar ochrau'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn cyhyd ag sy'n angenrheidiol i alluogi—

(a) person i fynd i mewn i'r cerbyd, neu i ddod allan ohono;

(b) nwyddau i gael eu llwytho ar gerbyd neu eu dadlwytho ohono;

(c) y cerbyd i gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag unrhyw un neu ragor o'r gweithrediadau a ganlyn:

- (i) gwaith adeiladu, gwaith diwydiannol neu waith dymchwel;
- (ii) symud unrhyw rwystr i draffig;
- (iii) cynnal a chadw, gwella neu ailadeiladu'r darnau o'r gefnffordd; neu
- (iv) gosod, codi, addasu neu atgyweirio, yn y darnau hynny o'r gefnffordd, neu mewn tir cyfagos, unrhyw garthffos neu unrhyw brif bibell, unrhyw bibell neu unrhyw gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw gyfarpar cyfathrebu electronig fel y'i diffinnir ym mharagraff 5 o Atodlen 3A i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003(4);

“parking disc” (“*disg parcio*”) has the meaning given in regulation 8(5) of The Local Authorities' Traffic Orders (Exemptions for Disabled Persons) (Wales) Regulations 2000(3);

“the relevant position” (“*y safle perthnasol*”) has the meaning given by regulation 4 of The Local Authorities' Traffic Orders (Exemptions for Disabled Persons) (Wales) Regulations 2000;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A483 Swansea to Manchester Trunk Road.

Prohibition of waiting at any time

3. Except as provided in article 4, no person may cause or permit any vehicle to wait on the sides of the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order at any time.

Exemptions

4.—(1) A person may cause or permit any vehicle to wait on the sides of the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order for so long as may be necessary to enable—

(a) a person to board or alight from the vehicle;

(b) goods to be loaded on or unloaded from the vehicle;

(c) the vehicle to be used in connection with any of the following operations:

- (i) building, industrial or demolition operations;
- (ii) the removal of any obstruction to traffic;
- (iii) the maintenance, improvement or reconstruction of the lengths of the trunk road; or
- (iv) the laying, erection, alteration, or repair in, or in land adjacent to the lengths of the trunk road of any sewer or of any main, pipe or apparatus for the supply of gas, water or electricity or any electronic communications apparatus as defined in paragraph 5 of Schedule 3A to the Communications Act 2003(4);

(3) O.S. 2000/1785 (Cy.122).

(4) 2003 p. 21; mewnosodwyd Atodlen 3A gan baragraff 1 o Atodlen 1 i Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017 (p. 30).

(3) S.I. 2000/1785 (W.122).

(4) 2003 c. 21; Schedule 3A was inserted by paragraph 1 of Schedule 1 to the Digital Economy Act 2017 (c. 30).

(d) y cerbyd i gael ei ddefnyddio yng ngwasanaeth awdurdod lleol neu awdurdod dŵr yn unol â swyddogaethau statudol;

(e) y cerbyd i gymryd petrol, olew, dŵr neu aer o unrhyw garej sydd ar y darnau o'r gefnffordd neu'n gyfagos iddo;

(f) y cerbyd i gael ei ddefnyddio at ddibenion y frigâd dân, y gwasanaeth ambiwlans neu'r heddlu; neu

(g) y cerbyd i stopio pan fo'r person sydd â rheolaeth arno'n gwneud y canlynol:

- (i) pan fydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith iddo stopio;
- (ii) pan fydd yn gorfod stopio er mwyn osgoi damwain;
- (iii) pan gaiff ei rwystro rhag mynd yn ei flaen; neu
- (iv) pan fo'n gweithredu yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil.

(2) Caiff person beri neu ganiatáu i gerbyd sy'n dangos yn y safle perthnasol fathodyn person anabl a disg parcio (y mae'r gyrrwr, neu berson arall sy'n gyfrifol am y cerbyd, wedi nodi arnynt yr amser pryd y dechreuodd y cyfnod aros) aros ar ochrau'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn am gyfnod nad yw'n fwy na 3 awr, gydag awr o leiaf yn gwahanu'r cyfnod hwnnw a chyfnod blaenorol y bu'r un cerbyd yn aros ar yr un diwrnod ar yr un darnau o'r gefnffordd.

Dirymu

6. Mae Gorchymyn Cefnffordd (yr A483) (Heol Llandybie a Stryd y Coleg, Rhydaman, Dyfed) (Gwahardd Aros) 1990(5) wedi ei ddirymu.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

1 Medi 2020



Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

(d) the vehicle to be used in the service of a local authority or a water authority in pursuance of statutory functions;

(e) the vehicle to take petrol, oil, water or air from any garage situated on or adjacent to the lengths of the trunk road;

(f) the vehicle to be used for fire brigade, ambulance or police purposes; or

(g) the vehicle to stop when the person in control of it:

- (i) is required by law to stop;
- (ii) is obliged to stop in order to avoid an accident;
- (iii) is prevented from proceeding; or
- (iv) is acting upon the direction, or with the permission, of a police constable, police community support officer or civil enforcement officer.

(2) A person may cause or permit a vehicle which displays in the relevant position a disabled person's badge and a parking disc (on which the driver, or other person in charge of the vehicle, has marked the time at which the period of waiting began) to wait on the sides of the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order for a period not exceeding 3 hours, being a period separated by an interval of at least 1 hour from a previous period of waiting by the same vehicle on the same day on the same lengths of the trunk road.

Revocation

6. The Trunk Road (A483) (Llandybie Road and College Street, Ammanford, Dyfed) (Prohibition of Waiting) Order 1990(5) is revoked.

Signed under authority of the Minister for Economy, Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated

1 September 2020



Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government

YR ATODLEN

Darnau o'r gefnffordd

1. Y darn o ochr ogledd-ddwyreiniol y gefnffordd o'r enw Heol Llandybïe sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4554 o'r enw Station Road hyd at bwynt 20 metr i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod A iddo ar y plan a adnewwyd.
2. Y darn o ochr ogledd-ddwyreiniol y gefnffordd o'r enw Stryd y Coleg sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4554 o'r enw Station Road hyd at ei chyffordd â Rhodfa Bryn Mawr ac y rhoddir y cyfeirnod B iddo ar y plan a adnewwyd.
3. Y darn o ochr ogledd-ddwyreiniol y gefnffordd o'r enw Stryd y Coleg sy'n ymestyn o'i chyffordd â Rhodfa Bryn Mawr hyd at bwynt 52 o fetrau i'r de-ddwyrain o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod C iddo ar y plan a adnewwyd.
4. Y darn o ochr dde-orllewinol y gefnffordd o'r enw Heol Llandybïe sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r B4554 o'r enw Station Road hyd at bwynt 19 o fetrau i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod D iddo ar y plan a adnewwyd.
5. Y darn o ochr dde-orllewinol y gefnffordd o'r enw Stryd y Coleg sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r B4554 o'r enw Station Road hyd at bwynt 112 o fetrau i'r de-ddwyrain o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod E iddo ar y plan a adnewwyd.

GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A483 (HEOL LLANDYBÏE A STRYD Y COLEG, RHYDAMAN, SIR GAERFYRDDIN) (GWAHARDD AROS) 2020

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn drwy arfer eu pwerau o dan adrannau 1(1), 2(1), 2(2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, sy'n dod i rym ar 3 Medi 2020.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd aros ar y darnau o gefnffordd yr A483 ar Heol Llandybïe a Stryd y Coleg, Rhydaman yn Sir Gaerfyrddin, fel a bennir yn yr Atodlenni i'r Hysbysiad hwn. Bydd gwahanol esemptiadau, gan gynnwys ar gyfer deiliaid bathodyn person anabl.

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 2 Medi 2020 ymlaen, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn a'r Plan, yn rhad ac am ddim, o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1406927 a gwefan Llywodraeth Cymru ar

SCHEDULE

Lengths of the trunk road

1. The length of the north-eastern side of the trunk road known as Llandybïe Road that extends from the centre-point of its junction with the B4554 known as Station Road to a point 20 metres north-west of that said junction and given the reference A on the deposited plan.
2. The length of the north-eastern side of the trunk road known as College Street that extends from the centre-point of its junction with the B4554 known as Station Road to its junction with Bryn Mawr Avenue and given the reference B on the deposited plan.
3. The length of the north-eastern side of the trunk road known as College Street that extends from its junction with Bryn Mawr Avenue to a point 52 metres south-east of that said junction and given the reference C on the deposited plan.
4. The length of the south-western side of the trunk road known as Llandybïe Road that extends from its junction with the B4554 known as Station Road to a point 19 metres north-west of that said junction and given the reference D on the deposited plan.
5. The length of the south-western side of the trunk road known as College Street that extends from its junction with the B4554 known as Station Road to a point 112 metres south-east of that said junction and given the reference E on the deposited plan.

THE A483 TRUNK ROAD (LLANDYBÏE ROAD AND COLLEGE STREET, AMMANFORD, CARMARTHENSHIRE) (PROHIBITION OF WAITING) ORDER 2020

The Welsh Ministers have made an Order in exercise of their powers under sections 1(1), 2(1), 2(2) and 124 of, and paragraph 27 of Schedule 9 to the Road Traffic Regulation Act 1984, which comes into force on the 3 September 2020.

The effect of the Order is to prohibit waiting on the lengths of the A483 trunk road at Llandybïe Road and College Street, Ammanford in the County of Carmarthenshire, as specified in the Schedule to this Notice. There will be various exemptions, including for disabled person's badge holders.

During a period of 6 weeks from 2 September 2020 a copy of the Order and Plan may be obtained free of charge from the address below quoting the reference number qA1406927 or can be viewed on the Welsh

<https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd>.

Os yw unrhyw berson yn dymuno cwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn, neu unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo, ar y sail:

- a. nad yw o fewn pwerau perthnasol Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984; neu
- b. na chydymffurfiwyd ag unrhyw un neu ragor o'r gofynion perthnasol,

caiff y person hwnnw, o fewn 6 wythnos i 1 Medi 2020, wneud cais i'r Uchel Lys i atal dros dro neu ddiddymu'r Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchymynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.



J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru


Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

If any person desires to question the validity of the Order, or of any provisions contained therein on the grounds:

- a. that it is not within the relevant powers of the Road Traffic Regulation Act 1984; or
- b. that any of the relevant requirements has not been complied with,

that person may, within 6 weeks of 1 September 2020, apply to the High Court for the suspension or quashing of the Order or of any provision contained therein.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Transport, Orders Branch, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.



J SADDLER
Transport
Welsh Government

YR ATODLEN

Darnau o'r gefnffordd

1. Y darn o ochr ogledd-ddwyreiniol y gefnffordd o'r enw Heol Llandybie sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4554 o'r enw Station Road hyd at bwynt 20 metr i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod A iddo ar y plan a adneuwyd.
2. Y darn o ochr ogledd-ddwyreiniol y gefnffordd o'r enw Stryd y Coleg sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4554 o'r enw Station Road hyd at ei chyffordd â Rhodfa Bryn Mawr ac y rhoddir y cyfeirnod B iddo ar y plan a adneuwyd.
3. Y darn o ochr ogledd-ddwyreiniol y gefnffordd o'r enw Stryd y Coleg sy'n ymestyn o'i chyffordd â Rhodfa Bryn Mawr hyd at bwynt 52 o fetrau i'r de-ddwyrain o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod C iddo ar y plan a adneuwyd.
4. Y darn o ochr dde-orllewinol y gefnffordd o'r enw Heol Llandybie sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r B4554 o'r enw Station Road hyd at bwynt 19 o fetrau i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod D iddo ar y plan a adneuwyd.
5. Y darn o ochr dde-orllewinol y gefnffordd o'r enw Stryd y Coleg sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r B4554

SCHEDULE

Lengths of the trunk road

1. The length of the north-eastern side of the trunk road known as Llandybie Road that extends from the centre-point of its junction with the B4554 known as Station Road to a point 20 metres north-west of that said junction and given the reference A on the deposited plan.
2. The length of the north-eastern side of the trunk road known as College Street that extends from the centre-point of its junction with the B4554 known as Station Road to its junction with Bryn Mawr Avenue and given the reference B on the deposited plan.
3. The length of the north-eastern side of the trunk road known as College Street that extends from its junction with Bryn Mawr Avenue to a point 52 metres south-east of that said junction and given the reference C on the deposited plan.
4. The length of the south-western side of the trunk road known as Llandybie Road that extends from its junction with the B4554 known as Station Road to a point 19 metres north-west of that said junction and given the reference D on the deposited plan.

o'r enw Station Road hyd at bwynt 112 o fetrau i'r de-ddwyrain o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod E iddo ar y plan a adnewwyd.

5. The length of the south-western side of the trunk road known as College Street that extends from its junction with the B4554 known as Station Road to a point 112 metres south-east of that said junction and given the reference E on the deposited plan.